Town Mayor / Maer y Dref: Councillor / Cynghorydd Mr Alexander Walker

Town Clerk / Clerc y Dref: Mrs Helen J Mead

Date / Dyddiad: 21/11/25

---

**Toiledau mewn mannau allweddol yn y Rhyl i barhau i fod ar agor wedi i'r Cyngor Tref gamu i mewn i atal eu cau.**

Roedd pwysau parhaus ar y gyllideb yn golygu bod risg o gau toiledau cyhoeddus, ac mae Cyngor Tref y Rhyl, fel yr holl gynghorau tref a chymunedau eraill, wedi bod yn gweithio gyda Chyngor Sir Ddinbych i ystyried ffyrdd o gadw'r cyfleusterau yn Neuadd y Dref, yr Arena Digwyddiadau, Pentre'r Plant, Hen Ffordd Golff a'r Gerddi Botanegol ar agor.

Bydd y Cyngor Tref yn rhoi'r cyllid sy'n ofynnol o'i gronfeydd wrth gefn yn ystod y ddwy flynedd nesaf. Golyga hyn y bydd y toiledau'n aros ar agor heb i'r Cyngor Tref orfod cynyddu ei gyfran o'r Dreth Gyngor – y praesept – yn ystod y cyfnod hwn.

Daw'r newyddion hwn ar ôl i'r Cyngor Tref gyhoeddi y byddai'n cynorthwyo i gadw Canolfan Groeso'r dref ar agor yn ystod misoedd y gaeaf.

Dywedodd Clerc y Dref, Helen Mead: "Fel yr holl awdurdodau lleol, mae cyllidebau Cyngor Sir Ddinbych yn cael eu gwasgu. Fodd bynnag, mae rhai cyfleusterau yn y Rhyl sy'n cael effaith mawr ar iechyd a lles pobl, ac mae toiledau cyhoeddus hygyrch yn un o'r pethau hynny.

"Bydd ein cyllid yn cadw'r cyfleusterau pwysig hyn ar agor ar ar y dyddiau a'r oriau arferol. Bydd cost defnyddio'r toiledau'n parhau i fod yr un fath, sef 40 ceiniog. Roedd y Cyngor Tref yn glir na ddylai'r pris gynyddu.

"Mae sicrhau bod trigolion a'r rhai sy'n ymweld â'n tref yn gyffyrddus yn bwysig i ni, felly rydym ni'n falch o fedru cefnogi'r cyfleusterau hyn am y ddwy flynedd nesaf. Byddwn yn adolygu'r sefyllfa eto bryd hynny."

**Diwedd**

---

CIVIC OFFICES,
WELLINGTON COMMUNITY CENTRE,
WELLINGTON ROAD, RHYL, DENBIGHSHIRE,
LL18 1LE.

SWYDDFEYDD DINESIG,
CANOLFAN GYMUNED WELLINGTON,
FFORDD WELLINGTON, Y RHYL, SIR DDINBYCH,
LL18 1LE.

TEL / FFÔN: (01745) 331 114 / / 07743 969555
E-MAIL / E-BOST: rachael.wheatley@rhyltowncouncil.org.uk
WEBSITE / GWENFAN: www.rhyltowncouncil.org.uk

Correspondence is welcome in either Welsh or English
Mae croeso I chi gysylltu â'r Cyngor yn Gymraeg neu yn Saesneg